Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Catherine Davies**

**Llanbedr Pont Steffan**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Mawrth 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn hapus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae a chânt gyfleoedd addas i ddatblygu eu sgiliau unigol. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau da â'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd ac maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn gofalu am y plant â chynhesrwydd a charedigrwydd. Ar y cyfan, maent yn dilyn gweithdrefnau priodol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'r angen i arsylwi ar y plant ac i gynllunio ar gyfer eu camau datblygu nesaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd addas i ofalu am y plant. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r cyfleusterau, y cyfarpar a'r lle yn addas i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer amrywiaeth o ddiddordebau a chamau datblygu.

Nid yw trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn gwbl effeithiol. Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r thema hon. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu systemau ar gyfer rheoli ei gwasanaeth, ac yn dangos awydd i wella ei harferion yn barhaus. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol ac mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y gofal a ddarperir gan y gwarchodwr plant.

## Llesiant — Da

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau. Maent yn dewis yr hyn y maent am chwarae ag ef a chânt eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am eu trefn ddyddiol. Er enghraifft, pan ddywedodd y plant nad oeddent yn barod i gael cinio, gohiriodd y gwarchodwr plant amser cinio am gyfnod byr a pharhaodd y plant i chwarae'n hapus. Mae'r plant yn defnyddio eu dewis iaith yn y lleoliad, sef Cymraeg neu Saesneg, ac maent yn cael ymatebion cadarnhaol yn eu dewis iaith.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am fod ganddynt gydberthnasau da, a chaiff eu hanghenion a'u teimladau eu cydnabod. Mae'r holl blant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac maent yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd. Maent yn sgwrsio'n hyderus â nhw er mwyn rhannu newyddion a gwneud ceisiadau. Caiff eu hanghenion eu diwallu'n brydlon. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn cydnabod pan oedd y plant yn flinedig, ac roeddent yn gallu cysgu neu ymlacio ym mha ffordd bynnag y mynnent.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac maent yn gyfarwydd â threfn ddyddiol y lleoliad. Mae'r plant yn sensitif i anghenion eraill, gan ryngweithio'n garedig ac yn dyner â'i gilydd. Er enghraifft, gwnaethant roi cysur i fabi yn dyner iawn, dan oruchwyliaeth, a dangosodd blentyn ddiddordeb a phryder pan oedd plentyn arall yn drist. Roedd y plant yn chwarae'n dda â'i gilydd, gydag ychydig o gymorth gan yr oedolion, fel sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu. Er enghraifft, roedd y plant yn annog ei gilydd i gropian drwy'r twneli.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn gwenu ac yn chwerthin drwy gydol eu hamser gyda'r gwarchodwr plant. Yn ystod ein hymweliad arolygu, dangosodd y plant fwynhad wrth gropian drwy dwneli, lle gwnaethant chwarae'n egnïol gan wichian yn llawn cyffro yn aml. Roeddent hefyd yn ymddiddori wrth baentio, gan ddangos i ni'r hyn a wnaethant yn falch. Er na wnaethom arsylwi ar y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad, oherwydd yr amodau rhewllyd, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mynd â'r plant allan i chwarae yn ddyddiol pan fo'r tywydd yn well.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas i feithrin eu sgiliau unigol. Cânt brofiad o amrywiaeth o weithgareddau sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu, yn ogystal â llawer o sgyrsiau yn eu dewis iaith, ac maent yn cael profiad o ganu a gwrando ar straeon drwy gydol y dydd. Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, ond collir cyfleoedd i roi'r sgiliau hynny ar waith yn ystod amseroedd bwyd. Roedd y plant iau yn tacluso eu teganau yn annibynnol ac yn bwyta'n hyderus gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc. Fodd bynnag, roedd y gwarchodwr plant yn gwneud rhai pethau drostynt y gallent eu gwneud eu hunain, fel rhoi eu llestri i gadw a rhoi sbwriel yn y bin.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae ganddi ddealltwriaeth briodol o'i chyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant ac mae'n sicrhau ei bod yn diweddaru ei hyfforddiant ar ddiogelu yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw ei chynorthwyydd wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau diogel mewn perthynas â damweiniau, gan gadw cofnodion yn unol â'r rheoliadau.
Mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid da y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol wrth newid cewynnau ac yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo'n rheolaidd. Yn dilyn ein hymweliad, gwnaeth y gwarchodwr plant ddiweddaru ei hyfforddiant hylendid bwyd a meithrin ei gwybodaeth am y canllawiau perthnasol i'w dilyn er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau hylendid bwyd yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd iach o fyw am ei bod yn annog y plant i yfed dŵr yn rheolaidd ac yn gofyn i'r rhieni baratoi pecynnau bwyd a byrbrydau iach i'r plant. Mae hefyd yn mynd â'r plant i chwarae yn yr awyr agored ac am dro yn yr ardal leol.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad yn effeithiol. Maent yn rhyngweithio â'r plant â chynhesrwydd a charedigrwydd ac yn rhoi maldod iddynt. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymddygiad a'u cyflawniadau, gan ddweud, er enghraifft "*Da iawn*" a "*That's beautiful*". Maent yn gyfarwydd ag anghenion a dewisiadau'r plant ac yn sicrhau y caiff y rhain eu diwallu a'u bodloni. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn anelu at roi sylw cyfartal i bob plentyn. Yn ystod ein hymweliad arolygu, ni wnaeth ystyried preifatrwydd ac urddas y plant yn llawn bob amser wrth roi hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r poti. Defnyddiodd plentyn y poti yn agos iawn at lle roedd y plant eraill yn bwyta eu cinio. Cydnabu'r gwarchodwr plant y gallai'r poti fod wedi cael ei osod ymhellach i mewn i'r ystafell fyw a fyddai wedi rhoi mwy o breifatrwydd i'r plentyn lle byddai wedi gallu cael ei gefnogi a'i oruchwylio o hyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad y plant, ac mae'n cynllunio gweithgareddau addas i'w galluogi i feithrin eu sgiliau. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym mai ei hethos yw cynnal gweithgareddau dan arweiniad y plant. Mae'n cefnogi'r plant yn briodol wrth chwarae, gan ofyn cwestiynau syml, helpu pan fo angen a sicrhau bod ganddynt yr adnoddau y maent eu heisiau. Ni welsom unrhyw gofnodion datblygiad wedi'u cwblhau yn ystod ein hymweliad, ond darparodd y gwarchodwr plant dempled y mae'n ei ddefnyddio i wneud arsylwadau ar ddatblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei dealltwriaeth o ran sut i gynllunio ar gyfer camau datblygu nesaf y plant. Roedd wrthi'n cwblhau cwrs hyfforddi ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod ein hymweliad. Nid oedd yn ymwybodol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru ond dangosodd awydd i ddysgu mwy am hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd wrthym ei bod yn esbonio i'r rhieni ei bod yn fodlon siarad Cymraeg â'r plant, ond ei bod yn

well ganddi reoli'r gwasanaeth a siarad â'r rhieni yn Saesneg.

## Yr Amgylchedd | Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Caiff y gwasanaeth ei gadw'n lân ac nid oes unrhyw beryglon gweladwy. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg sylfaenol ar yr amgylchedd, ond nid yw'r rhain yn ymdrin â phob ardal o'i chartref y mae'r plant yn ei defnyddio ac nid ydynt wedi'u dyddio i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu i wiriadau diogelwch priodol gael eu cynnal ar ei system gwres canolog, ac mae'n gwirio'r larymau mwg yn rheolaidd. Mae'n cadw cofnod o ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r ardal chwarae dan do yn briodol er mwyn cynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd dysgu. Mae'r plant yn chwarae yn yr ystafell fyw, yn yr heulfan ac yn yr ardal fwyta ac mae'r gwarchodwr plant yn symud yr adnoddau o amgylch y cartref yn unol â cheisiadau'r plant. Er enghraifft, symudodd y pwll peli mawr allan o'r heulfan er mwyn creu digon o le pan oedd y plant am chwarae â theganau eraill ar y mat. Mae'r plant yn gofyn am yr adnoddau y maent am eu heisiau ac mae rhai o'r rhain o fewn cyrraedd i'r plant. Er enghraifft, gallai'r plant estyn llyfrau a oedd yn cael eu storio mewn cwpwrdd lefel isel.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant. Mae ganddynt le i ymlacio, cysgu a chwarae. Gall y plant gysgu heb i neb darfu arnynt mewn cot i fyny'r grisiau neu mewn basgedi Moses ar y llawr gwaelod, yn unol â dewisiadau'r plant a'r rhieni. Gall y plant ymlacio a gorffwyso ar y soffas cyfforddus. Gall y plant ddefnyddio'r ystafell ymolchi sy'n cynnwys cyfarpar addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Er nad oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliad, gallem weld ei bod yn ddiogel, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a'i bod yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da ac sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae digon o adnoddau i ennyn diddordeb y plant. Mae'n darparu rhai adnoddau i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol, megis llyfrau, doliau a chwarae byd bach. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn darparu rhai adnoddau Cymraeg, megis llyfrau a jig-sos.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gwybodaeth sylfaenol i'r rhieni am ei gwasanaeth. Gwnaeth ddiweddaru'r datganiad o ddiben yn dilyn ein hymweliad, ond nid yw'n cynnwys gwybodaeth lawn am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Gwnaethom hefyd wirio sampl o bolisïau, gan gynnwys polisïau ar feddyginiaeth, cwynion a chyfrinachedd. Gwelsom fod y rhain yn sylfaenol ac nad ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Er enghraifft, nid yw'r polisi meddyginiaeth yn cynnwys manylion am y cofnodion y dylai'r gwarchodwr plant eu cadw ac nid oedd y polisïau yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Nid yw'r polisi diogelu yn cynnwys manylion y weithdrefn i'w dilyn os caiff honiad ei wneud yn erbyn y gwarchodwr plant neu aelod o'r staff.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn briodol mewn perthynas â rhai meysydd, ond nid yw'r broses cadw cofnodion yn ddigonol bob amser. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cadw gwybodaeth addas am anghenion y plant ac mae wedi datblygu system newydd ar gyfer cofnodi ymwelwyr, ymarferion tân a phrofion larymau tân. Mae'n cadw cofnodion o bresenoldeb y plant y mae'n gofalu amdanynt, ond nid yw'n cadw cofnodion llawn i ddangos pryd y mae ei chynorthwyydd yn gweithio. Hefyd, nid yw'n cadw cofnodion i ddangos pan fydd yn gofalu am aelodau o'r teulu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cwblhau hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys yn brydlon bob amser. Cyflwynodd hysbysiad am ddigwyddiad perthnasol yn dilyn ein hymweliad ac mae wedi gwella ei dealltwriaeth o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â hyn.

Nid yw'r broses rheoli staff yn bodloni'r rheoliadau yn llawn. Nid oedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau gwiriadau addasrwydd llawn ar gyfer ei chynorthwyydd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Er bod y gwarchodwr plant yn cyfathrebu â'i chynorthwyydd yn ddyddiol am ofal y plant, nid oes system ar waith ar gyfer cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Cyfeiriodd y gwarchodwr plant at weithdrefnau disgyblu staff sylfaenol mewn polisïau eraill, ond nid oedd ganddi bolisi disgyblu staff penodol. Mae ganddi system briodol ar waith i sicrhau y caiff gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau hyfforddiant sylfaenol yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal a ddarperir ganddi yn flynyddol ac yn ceisio barn y plant a'r rhieni fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae hefyd yn sicrhau ei bod yn darparu gwybodaeth i AGC pan ofynnir amdani. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol, megis hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n gofyn am gymorth gan ffynonellau priodol yn ôl yr angen.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Diweddaru'r datganiad o ddiben ac unrhyw bolisïau perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a'u bod yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol.

A2 Ehangu'r polisi diogelu a sicrhau bod y cynorthwywyr yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu.

A3 Llunio polisi disgyblu staff.

A4 Datblygu'r system ar gyfer arsylwi ar gynnydd y plant ymhellach a chynllunio ar gyfer eu camau datblygu nesaf.

A5 Ehangu'r asesiadau risg ar gyfer y gwasanaeth a sicrhau bod dyddiadau adolygu yn cael eu cofnodi.

A6 Sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y plant eu hystyried yn llawn pan fyddant yn defnyddio'r poti.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid oes dogfennaeth na gwybodaeth i ddangos bod yr holl wiriadau addasrwydd wedi cael eu cwblhau ar gyfer y cynorthwywyr. Sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau a bod yr holl wybodaeth ar gael mewn perthynas â rhain. | Newydd |
| 29 | Nid oedd y gwarchodwr plant yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd â'r staff. Sicrhau y caiff cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu eu cynnal yn rheolaidd â phob aelod o'r staff. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion llawn o oriau presenoldeb y plant na'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Cadw cofnodion llawn o oriau presenoldeb yr holl blant a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/03/2023